O deued pob Cristion i Fethlem yr awron

Caneuon Ffydd: Rhif 472

O deued pob Cristion i Fethlem yr awron
i weled mor dirion yw'n Duw;
O ddyfnder rhyfeddod, fe drefnodd y Duwdod
dragwyddol gyfamod i fyw:
daeth Brenin yr hollfyd i oedfa ein hadfyd
er symud ein penyd a'n pwn;
heb le yn y llety, heb aelwyd, heb wely,
Nadolig fel hynny gadd hwn.
Rhown glod i'r Mab bychan, ar liniau Mair wiwlan,
daeth Duwdod mewn baban i'n byd:
ei ras O derbyniwn, ei haeddiant cyhoeddwn
a throsto ef gweithiwn i gyd.

Tywysog tangnefedd wna'n daear o'r diwedd
yn aelwyd gyfannedd i fyw;
ni fegir cenfigen na chynnwrf na chynnen,
dan goron bydd diben ein Duw.
yn frodyr i'n gilydd, drigolion y gwledydd,
cawn rodio yn hafddydd y nef;
ein disgwyl yn Salem i ganu yr anthem
ddechreuwyd ym Methlem, mae ef.
Rhown glod i'r Mab bychan, ar liniau Mair wiwlan,
daeth Duwdod mewn baban i'n byd:
ei ras O derbyniwn, ei haeddiant cyhoeddwn
a throsto ef gweithiwn i gyd.

JANE ELLIS, *bl.* 1840
addas. Y CANIEDYDD CYNULLEIDFAOL NEWYDD, 1921

MYFYRDOD

Clywais amryw yn dweud, wrth baratoi ar gyfer y Nadolig, bod yna ormod o ffŷs o lawer yn cael ei wneud o'r Ŵyl; rhai eraill yn dweud y byddai'n gwneud mwy o les ei ddathlu yn llai aml! Gall y rhan fwyaf ohonom ni gydymdeimlo â'r safbwyntiau hynny, yn enwedig gan fod pobl yn sôn bod y blynyddoedd yn mynd heibio'n gynt wrth fynd yn hŷn a'i bod yn ymddangos fel byr o dro yn unig er pan oeddem ni'n dathlu'r Nadolig y tro diwethaf.

Efallai'n wir fod gormod o ffŷs, ond sut mae mynd ati i gadw ysbryd syml yr Ŵyl a'i dathlu fel y dylem ni? Cofiwn i'r Ŵyl gael ei diddymu am gyfnod o 1644 ymlaen oherwydd bod gormod o ffŷs yn cael ei wneud ohoni a dim digon o gofio ei gwir ystyr. A ddylem ni fynd mor bell â mynnu hynny eto? Efallai ddim! Ond mae pob Nadolig yn cynnig cyfleon inni gyhoeddi 'y newydd da am lawenydd mawr a ddaw i'r holl bobl', fel y gwnaeth yr angylion wrth y bugeiliaid hynny uwch Bethlehem (Luc 2:10).

Gorchmynnwyd i'r bugeiliaid beidio ag ofni, ac mewn byd sy'n ymddangos fel petai'n mynd yn lle peryclach i fyw ynddo o hyd, a phobl yn gaeth i lawer o ofnau, mae gennym ni le i rannu'r newydd da hwn sy'n dwyn llawenydd i bobl. Y newydd da hwnnw

fod un wedi dod i mewn i'n byd ni o'r tu allan iddo er mwyn ein hachub rhagddo a rhagom ni ein hunain: 'daeth Brenin yr hollfyd i oedfa ein hadfyd er symud ein penyd a'n pwn', ydy'r ffordd mae'r garol hon yn rhoi mynegiant i'r gwirionedd syfrdanol hwn. Mae yma grynhoad diguro o'r Efengyl sydd yn Newyddion Da ar gyfer dynoliaeth yn gyfan. Duw ei hun yn dod yn un ohonom yn Iesu Grist; yn dioddef adfyd yn ystod ei fywyd; dienyddiad anghyfiawn dan law llywodraethwyr estron a phenboethiaid crefyddol; marwolaeth a oedd yn farwolaeth mewn gwirionedd, a'r cwbl er mwyn symud cosb pechod, sef marwolaeth, oddi arnom a rhoi inni ei faddeuant a'i fywyd ei hun. Dyma'n wir 'Efengyl Gogoniant y Bendigedig Dduw'.

Gadewch inni annog ein gilydd i wneud yn fawr o'r cyfleon mae'r Nadolig yn eu cynnig inni bob blwyddyn. Y cyfleon a gawn wrth wahodd pobl, a bod ynglŷn â dramâu Nadolig yn yr ysgol a'r capel; yn y partïon; wrth rannu cardiau ac anrhegion, i enwi ond ychydig. Gwnawn yn siŵr ein bod yn manteisio ar ein cyfleon i rannu llawenydd gwir ystyr y Nadolig. Byddwn yn gwneud ein rhan wedyn gyda'r 'Tywysog tangnefedd' i wneud ein 'daear o'r diwedd yn aelwyd gyfannedd i fyw'. Bydded, yn wir, 'i'ch goleuni chwithau lewyrchu gerbron eraill' (Mth. 5:16). Mae holl adnoddau'r nef ar gael inni yng Nghrist i'n cynorthwyo (Eff.1:3). Os yw'r newydd da hwn y bu inni ei dderbyn yng Nghrist i fod o unrhyw fudd i ni, yna mae'n rhaid inni rannu ei lawenydd a dwyn eraill i 'weled mor dirion yw'n Duw'. Mae ein gwaith wedi ei osod allan ar ddiwedd y ddau bennill yma o'r garol gan Jane Ellis:

'Rhown glod i'r Mab bychan, ar liniau Mair wiwlan,
daeth Duwdod mewn baban i'n byd:
ei ras, O derbyniwn, ei haeddiant cyhoeddwn
a throsto ef gweithiwn i gyd.'

GWEDDI

O Dad, diolchwn am dy fendithion inni eto ar Ŵyl y Geni. Helpa ni i rannu o'n bendithion a'n llawenydd yng Nghrist a gwneud ein 'daear o'r diwedd yn aelwyd gyfannedd i fyw'. Yn enw'r Mab bychan sy'n dywysog tangnefedd. Amen.